| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 8fed Hydref 2020 |
| **PWNC** | Penderfyniad Cabinet 15/09/2020. Eitem 5 – Ysgol Abersoch. |
| **AWDUR** | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

1. Mae'r penderfyniad a ganlyn wedi ei alw i mewn i'w graffu yn unol ag Adran 7.25 o Gyfansoddiad y Cyngor: –

   **Eitem 5: Ysgol Abersoch, cyfarfod Cabinet 15/09/2020**

   **"Rhoddwyd caniatâd i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 ymlaen".**

2. Gwnaethpwyd y cais i alw'r penderfyniad i mewn i'w graffu gan y Cynghorwyr Paul Rowlinson (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu), Dewi Roberts ac Elwyn Jones o fewn y gofynion a'r amserlen angenrheidiol.

3. Mae'r rhesymau am alw mewn, hynny yw'r agweddau o'r penderfyniad ystyrir dylid eu craffu, wedi eu nodi fel a ganlyn:

   "*Oherwydd sefyllfa COVID a chanllawiau cyfreithiol a pholisïau'r Adran Addysg nid yw'n bosib cynnal cyfarfodydd yn yr ffordd arferol ac mae'n amhosib cael cyfarfodydd o gwbl gyda rhai sydd â diddordeb cryf yn y fater. Mae hefyd yn amhosib cael cyfarfodydd arferol cyhoeddus. Roedd y Pennaeth i ffwrdd o'i gwaith yn ystod y cyfnod. Felly roedd parhau gyda'r broses yn yr amgylchiadau hyn yn annheg i'r ysgol a'r gymuned. Yn ôl cynrychiolwyr yr ysgol, nid yw hi wedi ei chofrestru fel Ysgol Gwledig a chodwyd y cwestiwn pam. Cred rhai na ddylid cau ysgolion bach heb graffu ar y penderfyniad*".

4. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Craffu i graffu ar y mater yn unol â'r agweddau o'r penderfyniad yr ystyrir y dylid eu craffu amgaeir y dogfennau isod gyda'r adroddiad hwn.

   - Atodiad 1 – ymateb yr adran addysg i'r agweddau o'r penderfyniad ystyrir dylid eu craffu
   - Atodiad 2 – Taflen penderfyniad y Cabinet (Eitem 5, 15/09/2020)
   - Atodiad 3 – adroddiad y Cabinet (Eitem 5, 15/09/2020)